


DARLENWCH
 Mathew 2: 13-23

**ADNOD
ALLWEDDOL**
 Hebraid 2: 14

Astudiaeth 4 Genedigaeth Crist – Dechrau'r Erledigaeth

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Genesis 3: 15 Actau 10: 38-43

Ystyriai Herod fod genedigaeth Crist yn fgythiad personol iddo. Gorchmynnodd ladd pob bachgen dyflwydd (2) oed ac iau oedd yn byw ym Methlehem a'r cyffiniau. Drwy wneud hyn, roedd yn gobeithio y byddai'r Arglwydd Iesu ymhlith y rhai a laddwyd! Cynllun anfad oedd hwn o eiddo Herod, oherwydd mai Satan oedd wrth wraidd y cyfan. Roedd Genesis 3: 15 yn cael ei gyflawni, yn rhannol.

C Chwiliwch am yr adnod hon yn y Beibl ac ysgrifennwch beth mae'n ei ddweud am y berthynas rhwng y sarff (Satan) a "had y wraig" (Yr Arglwydd Iesu Grist)



Ar Galfaria, byddai'r Arglwydd Iesu yn maeddu (sathru) Satan ac yn dwyn ei rym oddi arno. Dyma un o'r rhesymau pam y cafodd Ef Ei eni i'n byd ni!


C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n adrodd y ffaith bwysig hon wrthym.



Yn y Darlleniad o'r Beibl, gwelwn fod Duw wrth y llyw! Drwy Ei angel, rhoddodd Duw gyfarwyddyd i Joseff ar sut i achub y Plentyn bach rhag cynllun creulon Herod.

C Llanwch y BLOC GEIRIAU.

1. Rhybuddiwyd Joseff drwy gyfrwng hon.
2. Derbyniodd Joseff gyfarwyddyd gan hwn.
3. Dywedwyd wrth Joseff am fynd i'r lle hwn. [2 air]
4. Roedd Joseff yn cyflawni geiriau'r
5. Perthynas Mair i'r Iesu.



**Yn ôl yr angel, tan pryd roedd Joseff a'i deulu i aros yn y wlad dramor?
(Gweler y Darlleniad o'r Beibl)**

--

C Ysgrifennwch Cywir neu Anghywir wrth ymyl y gosodiadau canlynol:-

- Gadawodd Joseff Jwdea fin nos.
- Aeth â'r Plentyn bach yn unig gydag ef.
- Arhosodd yn yr Aifft hyd nes marwolaeth Herod.
- Rhagfynegodd proffwyd y câi'r bechgyn eu lladd.
- Hiriam oedd y brenin ar y pryd.



Pan adawodd y teulu wlad yr Aifft ymhen hir a hwyr, roedden nhw'n cyflawni geiriau Hosea, y proffwyd. (Gweler Mathew 2:15)

C Ysgrifennwch broffwydoliaeth Hosea.


Cwblhewch y CROESAIR.

I LAWR

1. Enw'r llyfr yn yr Hen Destament sy'n dod cyn Galarnad ac sy'n cael ei enwi yn adnod 17.
2. Enw'r brenin pan ddychwelodd Joseff.
5. Ymateb Joseff pan glywodd am y brenin newydd.

AR DRAWS

3. Enw'r brenin a orchynnodd y lladdfa.
4. Y dref yr ymgartrefodd Joseff ynddi.
6. Y berthynas rhwng 3 ar draws a 2 i lawr.
7. Y rhanbarth yr aeth Joseff iddi yn lle Jwda.
8. Siaradodd Duw â Joseff mewn



Drwy gydol yr amser anodd hwn, bu Duw yn siarad â Joseff mewn breuddwydion

C Ysgrifennwch rif y tair adnod lle digwyddodd hyn.

Ymddiriedodd Joseff yn Nuw bob tro a bu'n ufudd l'w Air.

C Yn ein 4 astudiaeth, sawl proffwydoliaeth sy'n cael eu crybwyll rhwng Mathew 1: 18 a Mathew 2: 23 fel rhai a gyflawnwyd eisoes?

Roedd genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn wyrthiol ac yn gyffredin ar yr un pryd, yn ddi-nod ac eto'n fawreddog! Rydym wedi darllen am ddynion yn Ei addoli ac yn ceisio Ei ladd! Drwy ein hastudiaethau, gwelsom gynllun rhyfeddol Duw yn cael ei ddatblygu. Dim ond chi all ateb y cwestiynau canlynol: Ydych chi'n credu – mai'r Baban a anwyd ym Methlehem yw Mab Duw?

- Iddo ddod o'r Nefoedd?
- Iddo farw ar groesbren Calfarina?
- Iddo ddarparu iachawdwriaeth ar eich cyfer?
- Iddo godi o'r bedd yn fyw?

Mae Duw yn disgwyl am eich ateb!

Nadolig Llawn iawn i chi!
"Diolch i Dduw am Ei rodd anhraethadwy."

2 Corinthiaid 9: 15

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres iawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120